

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cymru - Gwlad Lle Mae Cyfle i Chwarae

## Adolygiad Gweinidogol o Gamau Gweithredu Chwarae

Adroddiad Cynnydd – Chwefror 2025

Fersiwn ar gyfer pobl ifanc

# Helo

**Mae chwarae yn bwerus.** Nid oes ots beth yw eich oedran, mae chwarae yn eich helpu i ddysgu, datblygu sgiliau newydd, a thyfu mewn hyder.

Mae'n gadael i chi fod yn greadigol, yn chwilfrydig ac yn anturus.

Mae chwarae'n ymwneud â datrys problemau, cysylltu syniadau, a thrafod heriau. Felly rydych chi'n cael deall bod camgymeriadau... yn rhan o ddysgu.

Hefyd, rydych chi'n gwneud ffrindiau, yn dysgu deall pobl, ac yn adeiladu ymddiriedaeth.

Mae chwarae yn rhoi lle i chi brosesu emosiynau, gwneud synnwyr o'r byd, a datblygu gwydnwch.

Ond yn bennaf oll... mae'n **HWYL!**



Mae Llywodraeth Cymru eisiau i bob plentyn a pherson ifanc gael llawer o gyfleoedd i chwarae.

## Ein gweledigaeth: "Cymru- Gwlad Lle Mae Cyfle i Chwarae"

**2019** — Rhwng 2019 a 2022, fe wnaethom sefydlu grŵp i weld pa gyfleoedd chwarae sydd ledled Cymru.

**2022** — Siaradodd y grŵp â phlant, pobl ifanc a hyd yn oed rhai oedolion i ddarganfod beth sy'n bwysig iddyn nhw.

**2023** — Yna fe wnaethon nhw ysgrifennu adroddiad llawn argymhellion ar sut y gallwn ni fel Llywodraeth Cymru wneud mwy o gyfleoedd chwarae.

**2024** — O hynny, fe wnaethom ni gychwyn **67 o gamau gweithredu** i wella chwarae yng Nghymru.

**2025** — Nawr — Mae'r Adroddiad Cynnydd hwn yn dweud wrthych chi am yr argymhellion, yr hyn rydyn ni wedi'i wneud hyd yma a'n camau nesaf.

**Os ydych chi'n byw yng Nghymru... mae gennych chi'r hawl i orffwys, ymlacio a chwarae!**

**Erthygl 31.** Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC).

## 1: Mae'n rhaid i ni...

**sicrhau bod pawb yn deall pa mor bwysig yw chwarae a'i wneud yn rhan o'n cynlluniau a'n polisïau.**

"Mae'n bwysig bod pobl yn deall bod chwarae yn dda i ni mewn sawl ffordd."

### Yr hyn rydyn ni wedi'i wneud...

Mae gennym ni Weinidog newydd dros Blant a Gofal Cymdeithasol.

Rydym ni wedi sefydlu grŵp newydd o'r enw Bwrdd Gweithredu Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae. Maen nhw'n gwirio bod ein holl gynlluniau a pholisïau yn cefnogi hawl plant i chwarae.

Fe wnaethon ni sefydlu grŵp Hyrwyddwyr Chwarae i wella cyfleoedd chwarae.

Fe wnaethon ni weithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill i sicrhau bod pob polisi newydd yn ystyried hawl plant i chwarae.

Fe wnaethon ni hefyd wneud y canlynol:

- gweithio gyda darparwyr chwarae i weld sut y gallwn ni eu helpu i gadw plant yn ddiogel
- helpu oedolion i feddwl am gadw plant yn ddiogel pan fyddant yn chwarae
- cefnogi cynllun gweithredu fel y gall darparwyr chwarae sicrhau eu bod nhw'n cymryd agwedd Gwrth-Hiliol.

## 2: Mae'n rhaid i ni...

**sicrhau bod ein cynlluniau a'n polisïau yn cefnogi cyfleoedd i chwarae.**

"Mae cael mannau chwarae yn bwysig i ni."

### Yr hyn rydyn ni wedi'i wneud...

Fe wnaethon ni godi ymwybyddiaeth o hawl plant i chwarae ar draws Llywodraeth Cymru.

Fe wnaethon ni gefnogi awdurdodau lleol i ddarparu mwy o gyfleoedd chwarae.

> **Y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae** — Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod digon o gyfleoedd chwarae yn eu hardal.

Fe wnaethon ni ddiweddaru ffurflenni asesu, canllawiau a phecynnau cymorth i helpu awdurdodau lleol i fodloni'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.

Rydyn ni'n mynd i gyfarfodydd y Rhwydwaith Cenedlaethol Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.



## ➡ 3: Mae'n rhaid i ni...

**feddwl am hawl plant i chwarae wrth wneud cynlluniau eraill i helpu pobl i ymdopi â materion fel costau byw.**

"Hoffem fod yn rhan o gynllunio gwasanaethau chwarae."

### Yr hyn rydyn ni wedi'i wneud...

Fe wnaethon ni edrych ar adroddiadau ac asesiadau i ddarganfod mwy am chwarae yng Nghymru.

Fe wnaethon ni ariannu ymchwil gan Chwarae Cymru a sefydliadau eraill i chwarae plant, polisi cymdeithasol ac ymarfer - Chwarae a bod yn dda.

**ℹ Mae Chwarae Cymru yn elusen rydyn ni'n ei hariannu sy'n hyrwyddo ac yn hybu hawl plant i chwarae.**

Mae gennym ni fwrdd o weithwyr proffesiynol sy'n gwirio sut mae ein gwaith yn effeithio ar chwarae plant ac yn gwneud yn siŵr ein bod yn diogelu eu hawl i chwarae.

## ➡ 4: Mae'n rhaid i ni...

**gefnogi awdurdodau lleol i gael cyllid ac adnoddau ar gyfer y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.**

"Mae chwarae yn bwysig - gwnewch yn siŵr bod arian ar ei gyfer."

### Yr hyn rydyn ni wedi'i wneud...

Fe wnaethon ni gefnogi pob awdurdod lleol i roi digon o gyfleoedd chwarae yn eu hardal.

Rydym ni wedi rhoi £10,000 i bob awdurdod lleol i'w helpu i wneud eu Hasesiadau Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.

Rydym ni'n ariannu Chwarae Cymru a sefydliadau eraill i gefnogi cyfleoedd chwarae dwyieithog.

Rydym ni'n cefnogi ac yn ariannu Prosiect Gwyliau Playworks - chwarae, a bwyd iach yn ystod gwyliau'r ysgol.



## 5: Mae'n rhaid i ni...

### gefnogi prosiectau sy'n hyrwyddo gwybodaeth am hawl plant i chwarae.

"Dylai pawb ddeall pam mae chwarae mor bwysig."

### Yr hyn rydyn ni wedi'i wneud...

Fe wnaethon ni godi ymwybyddiaeth o hawliau plant a sut y gall chwarae wneud gwahaniaeth ym mywydau plant.

Fe wnaethon ni weithio gyda sefydliadau i hyrwyddo ymgyrch Plentyndod Chwareus Cymru Chwarae Cymru.

Fe wnaethon ni hyrwyddo Diwrnod Chwarae Rhyngwladol cyntaf y Cenhedloedd Unedig a Diwrnod Chwarae'r DU.

Mae gennym ni Arweinwyr Chwarae newydd ledled Cymru i hyrwyddo hawl plant i chwarae. Bydd Chwarae Cymru yn cefnogi ac yn hyfforddi'r gweithwyr proffesiynol hyn.

Mae Chwarae Cymru hefyd wedi codi ymwybyddiaeth o chwarae i lawer o bobl drwy'r canlynol:

- cylchgrawn Plant yng Nghymru
- cylchgrawn Smalltalk ar gyfer Blynyddoedd Cynnar Cymru
- Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru
- cylchlythyrau a gwefannau
- bwletinau llywodraethwr ysgol.

## 6: Mae'n rhaid i ni...

### annog sefydliadau a gwasanaethau eraill i fodloni'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.

"Rydyn ni eisiau mwy o lefydd i chwarae."

### Yr hyn rydyn ni wedi'i wneud...

Fe wnaethon ni godi ymwybyddiaeth o'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.

Fe wnaethon ni gymryd rhan mewn gweminarau ar-lein yn siarad am y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a chwarae yng Nghymru.



## 7: Mae'n rhaid i ni...

sicrhau bod yr hawl i chwarae yn rhan o fwy o bolisïau, cynlluniau a gwneud penderfyniadau.

"Pan fydd pobl yn gwneud penderfyniadau, mae angen iddyn nhw feddwl am sut mae'n effeithio ar ein chwarae."

### Yr hyn rydyn ni wedi'i wneud...

Rydyn ni'n rhoi hawliau plant wrth wraidd ein holl waith.

Fe wnaethon ni gynnwys yr hawl i chwarae mewn polisïau a chynlluniau. Mae hyn yn cynnwys ein cynlluniau tlodi plant, cynlluniau iechyd a lles ac eraill.

Fe wnaethon ni wirio bod ein gwaith yn cefnogi hawliau plant.

## 8: Mae'n rhaid i ni...

sicrhau bod Polisïau Cynllunio yng Nghymru yn cynnwys hawl plant i chwarae a lleoedd i chwarae.

"Mae angen lleoedd da i chwarae wedi'u hadeiladu yn ein cymunedau."

### Yr hyn rydyn ni wedi'i wneud...

Fe wnaethon ni godi ymwybyddiaeth o hawl plant i chwarae gyda gweithwyr proffesiynol wrth gynllunio.

Rydym ni'n sôn am ddiweddariadau a allai fod eu hangen ar Bolisi Cynllunio Cymru.

## 9: Mae'n rhaid i ni...

sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu cymryd rhan mewn cynllunio cymunedol.

"Rydyn ni wrth ein bodd yn chwarae y tu allan ac yn gobeithio bod pobl yn cadw'r mannau hynny ac yn creu mwy o fannau y gallwn ni eu defnyddio."

### Yr hyn rydyn ni wedi'i wneud...

Rydym ni'n cefnogi awdurdodau lleol i sicrhau bod plant yn cael cyfleoedd i chwarae lle maen nhw'n byw.

Fe wnaethon ni adnewyddu'r pecyn cymorth Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae i helpu awdurdodau lleol i gynnwys plant a phobl ifanc.

Mae gennym ni ganllawiau newydd sy'n nodi sut i ddefnyddio strydoedd o amgylch ysgolion ar gyfer chwarae.



## 10: Mae'n rhaid i ni...

sicrhau bod pob lleoliad chwarae yn ddiogel ac yn meddu ar y polisïau diogelu cywir.

"Dylai chwarae fod yn hwyl, ond dylai fod yn ddiogel hefyd."

### Yr hyn rydyn ni wedi'i wneud...

Rydym ni'n gwirio'r Cod Ymarfer Diogelu ac yn gofyn i ddarparwyr gwasanaeth, gweithwyr proffesiynol ac eraill sut y gellir ei wella.

Fe wnaeth Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs greu Rhestr Wirio Diogelu Iechyd i helpu i sicrhau bod eu clybiau'n ddiogel.

Fe wnaethom ni hyrwyddo Fframwaith Sefydliadau Cymru fel bod gan sefydliadau chwaraeon y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i gadw plant yn ddiogel.



## 11: Mae'n rhaid i ni...

adolygu rheoliadau gwarchod plant a gofal dydd (rheolau) a chyfreithiau am waith chwarae.

"Rydyn ni eisiau i unrhyw reolau newydd wneud chwarae yn well, nid cael eu defnyddio i gael llai o chwarae."

### Yr hyn rydyn ni wedi'i wneud...

Rydym ni wedi dechrau adolygu'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gofal plant rheoledig ar gyfer plant dan 12 oed.

Fe wnaethon ni ymgysylltu â sefydliadau ac elusennau i glywed eu barn fel rhan o adolygu'r Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd.

Mae gennym ni ganllawiau newydd 'Cofrestru fel darparwr gofal plant: eithriadau' i esbonio pryd na all darparwr gofal plant neu chwarae gofrestru neu nad oes angen iddo gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru.

## 12: Mae'n rhaid i ni... ddatblygu cynllun i gefnogi'r gweithlu a'u helpu i dyfu eu sgiliau.

"Dylai'r bobl sy'n ein helpu ni chwarae fod yn dda am chwarae."

### Yr hyn rydyn ni wedi'i wneud...

Rydym ni wedi adolygu a diweddaru'r Cynllun Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar.

Datblygodd Chwarae Cymru fframwaith sicrhau ansawdd ar gyfer gweithwyr chwarae o'r enw 'Chwarae o Safon'.

Rydym ni wedi gweithio gyda Chyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru i sicrhau bod gan bobl sy'n hyfforddi gweithwyr chwarae gymwysterau da.



## 13: Mae'n rhaid i ni... gefnogi cyllid ar gyfer datblygu'r gweithlu chwarae a gwaith chwarae.

"Rydym ni angen mwy o weithwyr chwarae."

### Yr hyn rydyn ni wedi'i wneud...

Fe wnaethon ni gefnogi'r gweithlu.

Fe wnaethon ni weithio gydag eraill i redeg cymwysterau gwaith chwarae.

Fe wnaethon ni ofyn i Chwarae Cymru ddefnyddio rhywfaint o'n cyllid ar gyfer hyfforddi a datblygu'r gweithlu.

Fe wnaethon ni ofyn i Ofal Cymdeithasol Cymru ddarparu cyngor recriwtio i'r gweithlu.

Fe wnaethon ni adolygu ac adnewyddu'r Cynllun Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar.

Mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn parhau i ddarparu hyfforddiant ar gyfer cymwysterau gwaith chwarae o dan y rhaglen Hyfforddi a Chymorth.

## 14: Mae'n rhaid i ni...

**hyrwyddo pwysigrwydd chwarae a dod o hyd i ffyrdd o ddefnyddio tiroedd yr ysgol fel lleoedd i'r gymuned chwarae.**

"Gallai tiroedd ein hysgolion fod yn lle gwych i chwarae ar ôl ysgol hefyd."

### Yr hyn rydyn ni wedi'i wneud...

Fe wnaethon ni hyrwyddo pwysigrwydd chwarae mewn ysgolion.

Fe wnaeth Chwarae Cymru rannu adnoddau am hawl plant i chwarae gydag ysgolion.

## 15: Mae'n rhaid i ni...

**sicrhau bod mwy o gyfleoedd i chwarae, gwella amseroedd chwarae ac egwyl mewn ysgolion.**

"Dylem gael mwy o amser i chwarae a gwell amseroedd egwyl yn yr ysgol."

### Yr hyn rydyn ni wedi'i wneud...

Datblygodd Chwarae Cymru adnoddau ar gyfer ysgolion sy'n hyrwyddo manteision chwarae a dysgu.

Cynhaliodd Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs ddigwyddiad 'Cymryd y Cae Chwarae Drosodd' i dynnu sylw at bwysigrwydd yr hawl i chwarae.



# Camau nesaf

O fis Chwefror 2025 i fis Mai 2026, byddwn yn canolbwyntio ar y canlynol:

- gweithio gydag awdurdodau lleol i ddarganfod beth sydd bwysicaf i blant, pobl ifanc a theuluoedd
- cefnogi awdurdodau lleol i gynllunio mwy o gyfleoedd chwarae yn eu hardaloedd
- sicrhau bod gan blant a phobl ifanc eu hawl i chwarae
- gwirio bod ein deddfau a'n polisïau yn cefnogi hawl plant i chwarae
- gwirio'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a'i chyllid
- gwirio bod polisïau cynllunio yn cynnwys lleoedd i chwarae
- gwirio opsiynau cyllido i weld a allwn ni wneud mwy o gyfleoedd chwarae
- datblygu hyfforddiant gweithlu
- archwilio'r posibilrwydd o Siarter Chwarae newydd i Gymru.

Byddwn hefyd yn gwneud y canlynol:

- talu am ymchwil i Asesiadau Digonolrwydd Chwarae 2025 i weld lle mae pethau wedi gwella a beth sydd angen i ni ei wneud nesaf
- gweithio gydag eraill i ddod o hyd i fwy o ffyrdd o fwynhau chwarae fel archwilio Llyfrgelloedd Teganau sydd ar gael yng Nghymru.

Byddwn yn parhau i weithio i wneud...
**"Cymru- Gwlad Lle Mae Cyfle i Chwarae"**

## Diolch am ddarllen hyn

Gallwch ddarllen mwy yma:
[llyw.cymru/adroddiad-cynnydd-ar-yr-adolygiad-gweinidogol-o-gyfleoedd-chwarae-chwefror-2025-html](llyw.cymru/adroddiad-cynnydd-ar-yr-adolygiad-gweinidogol-o-gyfleoedd-chwarae-chwefror-2025-html)

